# COFNOD PENDERFYNIADAU CYD-GYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU A'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI

## 23$^{AIN}$ GORFFENNAF 2015

**Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin**

**2.00pm – 2.30pm**

| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL | Y PORTFFOLIO |
|---|---|
| **Y Cynghorydd L.D. Evans** | **Tai;** |
| **Y Cynghorydd D. M. Jenkins** | **Adnoddau;** |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **Mr. L. James** | **Rheolwr y Gwasanaethau Tai** |
| **Mr. J. Gravelle** | **Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw** |
| **Mr. K. Thomas** | **Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.** |

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

| |
|---|
| **Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.** |

Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod a chan roi sylw i farn yr Aelodau Lleol a'r rhai oedd a wnelont â'r materion, lle'r oedd hynny'n berthnasol, gwnaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:-

| Rhif yr Eitem | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| **2** | **COFNOD PENDERFYNIADAU – 29$^{ain}$ MEHEFIN 2015**<br><br>**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 29$^{ain}$ Mehefin, 2015, gan ei fod yn gywir.** |
| **3** | **ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**<br><br>**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 14 ac 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.** |
| **4.** | **TALIADAU PRYDLES, HEOL WALLASEY, RHYDAMAN**<br><br>**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf), a gwybodaeth y gellid honni braint gyfreithiol broffesiynol mewn perthynas â hi mewn achosion llys cyfreithiol (Paragraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**<br>**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfreithiol freintiedig a manylion** |

| | |
|---|---|
| | **prydleswyr yn Heol Wallasey. Felly byddai datgelu gwybodaeth mewn unrhyw fodd yn anfanteisiol i hawliau a rhyddid gwrthrychau'r data ac i unrhyw gamau cyfreithiol y gallai'r Awdurdod eu cymryd neu y gallai fod yn rhaid iddo ei amddiffyn ei hun rhagddynt. Felly yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**<br><br>Bu'r Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau a'r Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Dai yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar 4 dewis o ran y taliadau i'w codi ar brydleswyr eiddo yn Heol Wallasey mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i'r eiddo gan yr Awdurdod.<br>**PENDERFYNWYD bod y Prydleswyr yn Heol Wallasey i dalu'r swm gwreiddiol fel y'i pennwyd yn yr Hysbysiad Amcangyfrifon.** |

______________________________

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI

________________________

Y DYDDIAD